# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER 7FED GORFFENNAF 2017 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D.V. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C.J. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), P.A. Marsden (Addysg a Chyrhaeddiad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) a Mrs E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Corfforaethol - Cymunedau), N. Scammell (Cyfarwyddwraig Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro a Swyddog Adran 151) a D.Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol).

Hefyd yn Bresennol:

K. Peters (Rheolwraig Bolisi Corfforaethol), R. Roberts (Rheolwraig Perfformiad), D. Whetter (Prif Beiriannydd) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb gan y Cynghorydd Mrs B. Jones.

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd S. Morgan ddiddordeb mewn perthynas â'r adroddiad ar Gylch Gorchwyl Grŵp Cyswllt Bryn Compost. Gan yr oedd yn bersonol ac nid oedd yn ragfarnus, nid oedd gofyniad iddo adael y cyfarfod.

### 3. CABINET – 12FED EBRILL 2017

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed Ebrill 2017 (rhifau cofnod. 1-6) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**4. STRATEGAETH GORFFORAETHOL RISG DIWYGIEDIG A CHANLLAWIAU**

Darparodd yr adroddiad Strategaeth Rheoli Risg 2017 (a chanllawiau) diweddaredig a diwygiedig ar gyfer y Cabinet yn dilyn newidiadau mewn deddfwriaeth a gofynodd am ei gymeradwyaeth o'r Strategaeth ddiwygiedig, cyn ei ystyried yn y Pwyllgor Archwilio ar 13eg Medi 2017.

Mae gan yr Aelodau rôl i'w chwarae wrth werthuso trefniadau rheoli risg y cyngor ac yn benodol mewn deall sut mae'r cyngor yn nodi, rheoli, a lle mae hynny'n bosibl, lliniaru neu ddileu risg. Mae Rheoli Risg yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau'r cyngor yn effeithiol.

Nodwyd bod Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor wedi'i gymeradwyo yn 2013. Gwnaed nifer o newidiadau ers hynny; un penodol oedd cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd yn ei wneud yn angenrheidiol i'r Cyngor newid y ffordd y mae'n gweld risg yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd. O ganlyniad, cafodd y Strategaeth ei diweddaru ar gyfer 2017 i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Nododd y Cabinet y byddai'r ffordd y mae risg yn cael ei weld a'i raddio yn newid, o ran y byddai effeithiau risgiau tymor byr neu risgiau gweithredol ynghyd â goblygiadau tymor hir yn cael ac effeithiau ar genedlaethau i ddod yn cael eu hystyried.

Nododd Aelod nad oedd unrhyw gyfeiriad at risgiau croes dorri a'r effeithiau ar wasanaethau eraill o fewn yr Awdurdod a nodwyd hefyd y gallai cyfeiriadau at newidiadau gael eu hamlygu er hwylustod. Diolchodd y Swyddogion i'r Aelodau am eu hadborth a gwnaethant nodi awgrymiadau ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, ac o ystyried y newidiadau a wnaed i'r Strategaeth Risg Corfforaethol, i gymeradwyo'r Strategaeth cyn ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.

**5. CYNLLUN GWELLIANT PRIFFORDD CYLCHFAN PWLL-Y-PANT A468/A469**

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddefnyddio cyllid ar gyfer symud y cynllun gwella ffyrdd adeiladu cylchfan Pwll-y-pant A468/A469 ymlaen.

Nodwyd mai'r A468/A469 Ffordd Osgoi Gogledd Caerffili yw'r brif wythien sy'n cysylltu Caerffili ac aneddiadau yng ngogledd y fwrdeistref i'r rhwydwaith gefnffyrdd (A470, M4) a Chaerdydd. Mae eisoes wedi'i orlwytho'n drwm ar yr adegau prysuraf ac mae'r holl gyffyrdd wedi cyrraedd, neu dros, gapasiti ar yr adegau prysuraf. Cylchfan Pwll-y-pant yw'r nod prysuraf ar y rhwydwaith priffyrdd strategol ac yn y fwrdeistref sirol gyfan.

Bydd gwelliant priffordd cylchfan Pwll-y-pant yn cynyddu capasiti ar y gylchfan fel na fydd dros ei gapasiti ar gwblhau a bydd yn perfformio'n foddhaol gan ystyried datblygiadau arfaethedig sy'n hysbys (a nodwyd drwy'r broses adolygu CDLl) hyd at 2031. Byddai hefyd yn gwella dibynadwyedd amseroedd teithio ar gyfer gwasanaethau bysiau ac annog defnydd cludiant cyhoeddus a lleihau traffig sy'n teithio drwy dref Caerffili a thrwy hynny wella ansawdd yr aer.

Bydd y cynllun yn cael ei ariannu o gyfraniadau datblygwyr (A106) a chyllid Grant Llywodraeth Cymru. Y bwriad yw y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ym mis Medi / Hydref 2017, ac yn cymryd tua deuddeg mis i'w gwblhau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) i gymeradwyo cyflwyno'r cynllun priffordd gwella cylchfan Pwll-y-pant fel cynllun priffordd sy'n cymryd blaenoriaeth;

(ii) i gefnogi'r defnydd o'r £1.5m o gyllid gan y Gronfa Drafnidiaeth Leol yn 2017/18 a bod y gwaith paratoi ac amgylcheddol angenrheidiol a'r ymarfer tendro caffael yn cael ei gymeradwyo i gychwyn yn haf 2017;

(iii) i gymeradwyo trosglwyddo hyd at £700 mil o gronfa Ysbyty Ystrad Fawr i gynllun cylchfan Pwll-y-pant, fel cyllid angenrheidiol er mwyn cyflawni'r cynllun.

**6. UNED 21 YSTÂD DDIWYDIANNOL Y LAWNT – ADNEWYDDU PRYDLES FURNITURE REVIVAL, GC ENTERPRISES (WALES) LTD.**

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i ymrwymo i brydles 10 mlynedd i GC Enterprises (Wales) Ltd (yn masnachu fel 'The Furniture Revival') ar gyfer Uned 21 Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt, sy'n cynnwys 13, 103 troedfedd sgwâr, am rent blynyddol o £1 y flwyddyn.

Mae GC Enterprises (Wales) Ltd yn masnachu fel 'The Furniture Revival' a'r sefydliadau blaenorol wedi meddianu Uned 21 Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt ers mis Mai 2001 pan roddwyd prydles 10 mlynedd ac ers hynny mae'r cwmni wedi wedi cynnal dros y cytundeb presennol yn rhinwedd y Ddeddf Landlord a Thenant 1954. Mae'r brydles ar dermau atgyweirio ac yswirio llawn ar rent blynyddol o £1 y flwyddyn.

Mae 'The Furniture Revival' yn fenter gymdeithasol sydd, drwy leihau gwastraff i safleoedd tirlenwi drwy ailddefnyddio ac ailgylchu, yn cefnogi'r gymuned ac yn lleddfu tlodi drwy ddarparu mynediad at ddodrefn cartref, eitemau trydanol a phaent y cartref wrth ddarparu canolbwynt ar gyfer gwirfoddolwyr a hwyluso hyfforddiant i wella cyflogadwyedd a sgiliau.

Mae GC Enterprises (Cymru) Ltd wedi nodi'r angen ar gyfer pryniannau cyfalaf a gwaith ailwampio er mwyn parhau i weithredu ar y safle. Maent wedi gwneud cais lwyddiannus am gymorth ariannol trwy Gronfa Adfywio Gymunedol y Cyngor ac mae £22,855.06 wedi cael ei ddyfarnu mewn egwyddor. Mae meini prawf ariannu Cronfa Adfywio Cymunedol y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw fuddiolwr mewn llety rhent i gael prydles annarfodedig yn para o leiaf 10 mlynedd. Felly, mae GC Enterprises (Cymru) Ltd wedi gofyn i'r Cyngor ymrwymo i gytundeb prydles 10 mlynedd newydd ar yr un telerau ac amodau â'r brydles sydd wedi dod i ben.

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried a chymeradwyo prydles 10 mlynedd newydd gyda GC Enterprises (Wales) Ltd yn masnachu fel 'The Furniture Revival' am lai na'r pris gorau y gellid ei gyflawni fel arall er budd lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol y cyfan neu ran o Fwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd cael prydles 10 mlynedd hefyd yn bodloni'r amodau sy'n gysylltiedig â'r dyfarniad o arian mewn egwyddor gan Gronfa Adfywio Gymunedol y Cyngor i GC Enterprises (Wales) Ltd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, y dylai'r Cyngor gychwyn prydles 10 mlynedd newydd, am rent o £1 y flwyddyn ac fel arall ar yr un telerau gyda GC Enterprises (Wales) Ltd yn masnachu fel 'The Furniture Revival' ar gyfer

Uned 21 Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt.

**ARGYMHELLION I'R CYNGOR**

**7. CYLCH GORCHWYL GRŴP CYSWLLT BRYN COMPOST**

Ym mis Mawrth 2010, cytunodd y Cyngor i sefydlu Grŵp Cyswllt Bryn Compost. Yn dilyn cais gan y Grŵp Cyswllt i ymestyn y cylch gorchwyl i gynnwys arogleuon sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ffermio, ceisiodd yr adroddiad farn y Cabinet ar weithrediad y Grŵp yn y dyfodol cyn ei gyflwyno i'r Cyngor.

Nodwyd bod Rhan 2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn darparu bod y Cyngor llawn yn gyfrifol am "gytuno a /neu ddiwygio cylch gorchwyl ar gyfer pwyllgorau, is-bwyllgorau, paneli a byrddau, gan benderfynu ar eu cyfansoddiad a gwneud penodiadau iddynt."

Amlinellodd yr adroddiad fod Bryn Compost Ltd yn gweithredu fel busnes compostio masnachol yn Fferm Gelliargwellt Uchaf yng Ngelligaer. Sefydlwyd Grŵp Cyswllt Bryn Compost ym mis Mawrth 2010 er mwyn mynd i'r afael â chwynion ac arogleuon a brofwyd o gwmpas lleoliad Fferm Gelliargwellt Uchaf. Mae'r Grŵp Cyswllt yn cynnwys cynrychiolwyr o Gwmni Bryn Compost, Iechyd yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, aelodau ward lleol cyfagos a deg o drigolion a chaiff ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol a Hamdden. Manylir ar ei gylch gorchwyl presennol yn yr atodiad i'r adroddiad. Awgrymodd aelod ward lleol y dylai'r cylch gorchwyl gael ei ehangu i gynnwys mater arogleuon a greir gan weithgareddau ffermio a chafodd hyn ei gefnogi gan y Grŵp Cyswllt.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod sylwadau e-bost wedi cael eu gwneud gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn cyfeirio at y Grŵp Cyswllt Bryn Compost ac mai barn Cyfoeth Naturiol Cymru oedd nad yw'r grŵp yn ei ffurf bresennol yn ychwanegu digon o werth at reoliad effeithiol o weithgareddau a ganiateir ar Fferm Gelliargwellt Uchaf, Gelligaer i gyfiawnhau'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen wrth baratoi ar gyfer a mynychu'r cyfarfodydd rheolaidd hyn. Cafwyd sicrwydd y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i reoleiddio'r trwyddedau amgylcheddol ar waith yn y cyfleuster, er mwyn sicrhau diogelwch parhaus yr Amgylchedd ac maent wedi ymrwymo i gyflawni gwelliant parhaus i leihau'r risg o faterion sy'n ymwneud ag arogleuon yn y dyfodol.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am yr adroddiad a'r wybodaeth ychwanegol a gofynwyd a oedd ymgynghori wedi digwydd gyda'r Aelodau Ward Lleol. Cadarnhaodd y Swyddogion na ymgynghorwyd ag aelodau lleol ac, o ganlyniad, cytunodd y Cabinet y dylid cynnal ymgynghoriad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, ac fel y trafodwyd yn y cyfarfod, argymhellwyd i'r Cyngor y dylai aelodau Grŵp Cyswllt Bryn Compost yn amodol ag ymgynghori ag aelodau'r ward lleol.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.31 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 21ain Mehefin, 2017.

______________________

CADEIRYDD